

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

England & Wales · Charity number 1195317

Details

Status Registered

Legal form CIO

Registered 2021-07-27

Register [View on the Charity Commission register](#)

Contact

Address Ysgol Feithrin Pontypwl
St. James Hall
St. James Field
Pont-Y-Pwl
NP4 6JT

Phone 01495 755616

Email hgglynebwy@gmail.com

Activities

Objects: TO ADVANCE THE EDUCATION OF PRE-SCHOOL CHILDREN THROUGH THE MEDIUM OF WELSH LANGUAGE WITHIN PONTYPWL.

Activities: Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn Meithrinfa dydd cyfrwng Cymraeg nas gynhelir. Rydym yn derbyn plant rhwng dwy a hanner a 5 oed ac ifyny at 3 o blant dwy oed o dan y cynllun Dechrau'n Deg. Rydym yn sicrhau cyfle cyfartal i bob plenty/rhiant/gofalwr beth bynnag eu hil, iaith, rhyw, crefydd neu gallu corfforol ac fel Meithrinfa Gymunedol rydym yn gweithio'n agos gyda theuluoedd y plant ddaw atom.

Classification

- **How:** Provides Buildings/facilities/open Space, Provides Services, Provides Advocacy/advice/information
- **What:** General Charitable Purposes, Education/training
- **Who:** Children/young People

Geography

- Torfaen

Finances

Period end	Income	Expenditure	Assets	Employees
2025-03-31	£57,730	£78,402	-	-
2024-03-31	£62,959	£70,707	-	-
2023-03-31	£73,387	£67,897	-	-
2022-03-31	£84,770	£81,570	-	-

Trustees

Name	Role	Appointed
Sarah Jones	Chair	2021-03-23
Ena Morris		2021-03-23
MARTYN REDWOOD		2021-03-23

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

England & Wales - Charity number 1195317

Accounts

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR

01 EBRILL 2024 – 31 DECEMBER 2025

ENW'R DARPARWR:	YSGOL FEITHRIN PONTYPWL		
CYFEIRIAD Y DARPARWR:	Neuadd Iago Sant / St James' Hall, Heol Hanbury, Pontypwl, Torfaen, NP4 6JT. FFON: Neuadd/Hall (01495 755616) E bost/e mail: hgglynebwyr@gmail.com .		
RHIF ELUSENNOL	1195317		
PERSON A GOFAL	HELEN GREENWOOD		
MANYLION CYSWLLT	hgglynebwyr@gmail.com		
	Rhif ffon symudol yr Arweinydd		07377544285
	Rhif ffon adref yr Arweinydd		01495 350155

STRWYTHYR LLYWODRAETHIANT A RHEOLI

UNIGOLION CYFRIFOL	HELEN GREENWOOD		
ENDID CYFREITHIOL	Mae Ysgol Feithrin Pontypwl wedi ei chofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE / CIO)		
PWYLLGOR RHEOLI:	Caiff Ysgol Feithrin Pontypwl ei rheoli gan Pwyllgor gwirfoddol sydd yn cwrdd unwaith bob tymor. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Yr Arweinydd, Swyddogion, Ymddiriedolwyr, Swyddog Cefnogi Mudiad Meithrin a cynrychiolydd o'r Cylch Ti a Fi.		
SWYDDOGION Y PWYLLGOR	Cadeirydd	Sarah Jones	
	Ysgrifennydd	Lucy Preston	
	Trysorydd	Martyn Redwood.	
YMDDIRIEDOLWYR	Ena Morris		
	Sarah Jones		
	Martyn Redwood		

STAFF - Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi 3 aelod o staff rhan amser ac mae gennym myfyriwr o Ysgol Gyfun Gwynllyw ar brofiad gwaith deudydd yr wythnos hefyd. Yn ystod 2025, oherwydd salwch yn y teulu, fe wnaeth Dirprwy Arweinydd y Cylch ymddiswyddo wedi dros 25 mlynedd o wasanaeth. Er gwaetha hyn mae'r staff yn gweithio'n hynod o lwyddianus gyda'u gilydd fel tim ac yn gweithio'n gale di sicrhau safon uchel o ofal i'r plant yn y Cylch.

Mae gan Ysgol Feithrin Pontypwl Cyfansoddiad caiff ei adolygu yn flynyddol gan y Pwyllgor. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol o'r Pwyllgor i ethol / ail ethol Swyddogion, Ymddiriedolwyr ac adolygu Polisiau a gweithdrefnau.

Mae gennym bolisi Staffio manwl sydd yn gosod allan strwythur o ran hysbysebu am a phenodi staff. Mae pob Aelod o staff yn mynychu ystod eang o gyrsiau hyfforddiant yn gyson yn cynnwys Diogelwch Plant, cymorth cyntaf, a llawer mwy. Darperir restr o'r cyrsiau hyn ar gyfer swyddogion ac ymddiriedolwyr.

Mae gan pob Ymddiriedolwr DBS cyfredol ac rydym yn cynnig cyfleuoedd iddynt ddilyn cyrsiau hanfodol fel Diogelu Plant, Cymorth Cyntaf ac ati.

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR

01 EBRILL 2024 – 31 DECEMBER 2025

AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn Meithrinfa Cyfrwng Gymraeg cafodd ei sefydlu ynghanol Pontypwl yn Neuadd Uchaf Iago Sant 40 mlynedd yn ol. Erbyn hyn rydym wedi ein cofrestru gyda AGC fel Meithrinfa gofal dydd ar gyfer 19 o blant rhwng dwy a hanner a phump oed. Ym mis RHagfyr 2024 cofrestrwyd y sefydliad i dderbyn ifyny at 3 o blant 2 oed fel rhan o'r cynllun Dechrau'n De gyn Nhorfaen.

Rydym yn Cynnig addysg cyfrwng Cymraeg o safon uchel mewn awyrgylch cyfeillgar a chymunedol ac ar yr un pryd Sicrhau cyfle cyfartal i bob plenty/rhiant/gofalwr beth bynnag eu hil, iaith, rhyw, crefydd neu gallu corfforol. Caiff y plant cyfleuoedd chwarae amrywiol sydd yn sylfaenol i ddatblygiad plentyn yn gorfforol, yn emosiynol yn ieithyddol, yn gymdeithasol, ac yn ddeallusol. Mae staff yn sicrhau bod hawliau plant yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant a Deddf Plant 2004 yn rhan o ethos y grwp yn ogystal a sicrhau bod plant, waeth beth fo'u hangen, yn elwa o brofiadau blynyddoedd cynnar o ansawdd dda gan eu hannog i ddatblygu'n unigolion hyderus, annibynnol a chreadigol. Rydym yn cydweithio yn agos gyda rhieni a gofalwyr i sicrhau polisi drws agored i bawb sydd a diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

NIFEROEDD

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn dilyn rheolau AGC o ran niferoedd staff a phlant.

Rydym wedi ein cyfrestru i dderbyn dim mwy na 19 o blant ymhob sesiwn,

Oedran y plant – rhwng dwy a phump oed

Rydym yn sicrhau 1 oedolyn i bob 8 o blant dros dair oed.

Rydym yn sicrhau 1 oedolyn i bob 4 o blant dwy i dair oed

Ym mis Ionawr 2025 fe wnaethom gofrestru i dderbyn 3 o blant Dechrau'n De gyn ein lleoliad. Ac rydym yn archwilio'r posibilrwydd o benodi Aelod o staff lefel 5 yn y dyfodol er mwyn gallu ehangu y nifer o blant Dechrau'n Deg galledd dderbyn.

Ym mis Medi 2025 gwelsom lleihad yn ein niferoedd oherwydd bod Dosbarth meithrin bellach ymhob un o'r ysgolion cynradd Cymraeg yn Nhorfaen yn ogystal a gofal plant mewn nifer ohonynt.

EIN GWASANAETH

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl wedi bod yn cynnig addysg cyn ysgol o safon ynghanol Pontypwl ers dros 40 mlynedd. Ein nod yw sicrhau ein bod yn cynnig cyfleuoedd chwarae a dysgu cyffroes i'r plant yn ein gofal gan ddilyn Cwricwlwm Llywodraeth Cymru ar gyfer LLeoliadau a ariennir nas gynhelir. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau amrywiol addas ar gyfer ystod oedran y plant, eu galluoedd a'u gofynion gwahanol. Rydym yn paratoi cynlluniau tymor hir, tymor byr a chyfleuoedd chwarae dyddiol gan sicrhau bod llais y plant yn rhan bwysig o'r paratoi yma ac erbyn hyn rydym hefyd yn rhoi pwyslais mawr ar cynllunio fesul tymor gan edrych ar y 4 pwrpas a'r 5 Llwybr Dysgu.

Fel Meithrinfa Cymunedol rhoddir pwyslais mawr ar gynnwys y rhieni a'r teulu estynedig ymhopeth rydym yn ei wneud gan fagu perthynas clos gyda phob un a'u hannog i ymuno a ni ar amrywiol weithgareddau a theithiau gyda'r plant. Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn hunan werthuso'r gwasanaeth yn gyson gan ofyn barn y plant, y rhieni a'r staff er mwyn gwella ein darpariaeth yn gyson. Mae gennym ystod eang o bolisiau manwl sydd yn sicrhau fod y plant yn ddiogel bob amser. Rydym yn anelu at sicrhau bod y plant yn deall pwysigrwydd bwyta a chadw'n iach a gofalu am ein cymuned.

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR

01 EBRILL 2024 – 31 DECEMBER 2025

Rydym yn falch iawn o allu cynnig polisi drws agored i bob plentyn sydd a diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac rydym yn credu yn gryf fod angen i ni arfer cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhopeth rydym yn ei wneud. Mae gennym berthynas agos ac asianteithau lleol sydd yn golygu ein bod yn gallu sicrhau cymorth a chefnogaeth gyda phroblemau iaith a lleferydd, clyw, golwg ac unrhyw anghenion yhwangol eraill. Gwneir hyn mewn cydweithrediad llwyr a'r rhieni a'n nod yw darparu gofal a chefnogaeth llwyr i bawb.

CANMOL A CHWYNO

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn croesawu barn rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir, fel y gellir ei wella os oes angen. Hysbysir rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ynglŷn â'r polisi a threfn canmol a chwyno cyn i'w plentyn gychwyn yn y lleoliad. Darperir hyfforddiant i'r holl staff ar weithrediad y Polisi Canmol a Chwyno a'r Cod Ymarfer.

ADOLYGIAD ARIANNOL

SESIYNNAU

Rydym yn cynnig 7 sesiwn yr wythnos sef diwrnod llawn ar ddydd Llun, Mercher a Dydd Gwener a sesiwn hanner diwrnod ar Ddydd Mawrth. Ar hyn o bryd rydym ar gau ar fore lau oherwydd niferoedd isel. Mae'r Cylch TI A FI ar agor bob bore lau yn y Neuadd Isaf.

CLYBIAU

CLWB BRECWAST

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn falch o allu cynnig Clwb Brecwast rhwng 8.30am – 9.30am ar gyfer ein plant ni yn unig. Rydym yn cynnig ystod eang o fwydydd iach a chyfle i'r plant cymdeithasu gyda'u gilydd a sgwrsio yn hamddenol dros frecwast.

CLWB CINIO

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl hefyd yn cynnig Clwb Cinio ar Ddydd Llun, Mercher Gwenerer ar gyfer y plant sydd yn aros trwy'r dydd. Mae'r plant yn dod a phecyn bwyd eu hunain ac mae'r staff yn eistedd gyda'r plant i fwyta eu cinio.

TALIADAU

CLWB BRECWAST	£3.00
SESIWN BORE	£13.00
CLWB CINIO	£2.00
SESIWN PRYNHAWN	£13.00
TAL DIWRNOD LLAWN	£31.00
PLANT A ARIENIR GAN Y CYNGOR	£18.00

Mae'r plant 3-4 oed yn derbyn 10 awr o arian addysg gan Cyngor Torfaen. Telir ni am 76 diwrnod a hynny ar £10 y diwrnod (sef £5 yr awr) felly ar gyfer Tymor yr Hydref 2025 roedd hyn yn gyfateb i £760 y pen am y tymor Hydref – Rhagfyr. Rhoddwyd ffi sesiwn ifyny o £11 i £13 ym mis Medi 2025.

Mae'r rhieni sydd yn gweithio mwy na 16 awr yr wythnos hefyd yn gallu hawlio ifyny at 20 awr ychwnegol trwy Cynllun Gofal Plant Cymru 30 awr. Yn ystod 2024-2025 roedd 6 o deuluoedd yn cymryd mantais o'r cynllun ac fe nodir y swm a dderbyniom ar gyfer tal plant ar ein cyfrifion am yr un cyfnod,.

Disgwylir i deuluoedd sydd yn talu ffioedd dalu'r ffioedd ymlaen llaw am hanner tymor, yn fisol neu'n wythnosol. Rhaid talu am bob sesiwn hyd yn oed os yw'r plentyn ar wyliau neu'n absennol.

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR

01 EBRILL 2024 – 31 DECEMBER 2025

Mae gan Ysgol Feithrin Pontypwl cyfrif gyda'r Monmouthshire Building Society lle cedwir arian wrth gefn rhag ofn ein bod yn darganfod ein hunain yn brin o arian.

Ar hyn o bryd mae'r arian ddaw mewn trwy'r Cynllun 10 awr addysg y Cyngor, y Cynllun 30 awr, gweithgareddau codi arian a grantiau amrywiol yn talu 85%-90% o gostau cyflogau'r staff, rhent yr adeilad, costau trydan, nwy, ffon, bwyd a diod, gweinyddol ac ati. Rydym yn ceisio cadw arian wrth gefn yn y cyfrif cyfredol hefyd ond dros yr haf yn 2024 bu'n rhaid trosglwyddo £10,000 o'r cyfrif Cymdeithas adeiladu i gyfro costau ychwanegol

Mae niferoedd isel yn golygu bod aelodau staff wedi torri lawr ar eu horiau, ac rydym yn ofalus i beidio gwario arian ar adnoddau ac offer ddiangen. Cedwir llygad ofalus ar ein cyfrifon

GRANTIAU

Er mwyn sicrhau nad ydym yn mynd i fewn i ormod o ddyled, dros y flwyddyn diwethaf rydym hefyd wedi gwneud cais am nifer o grantiau. Yn ogystal a'r grant blynyddol ar gyfer Meithrinfeydd sydd mewn ardal ddifreintiedig (Ceir £7,000 EYDG) eleni rydym hefyd bod yn llwyddianus i dderbyn grant o £1500 gan ein Cyngor Cymuned lleol. Grant Cynladwyiaeth gan y Cyngor Bwrdeisdref o £4,500, grant gan Cronfa Glyndwr o £400 ac rydym wedi roi cais mewn hefyd am grant

CODI ARIAN

Mae codi arian yn rhan bwysig o weithgareddau cymunedol ein lleoliad ac mewn cydweithrediad a'n teuluoedd rydym yn trefnu amserlen eang o weithgareddau codi arian. Yn ystod 2024 - 2025 cynhaliwyd Ffair Aeaf, Te Prynawn, Disgo Calan Gaeaf, Disgo Nadolig, Noson Bingo a Chawl, Noson Creu Torch Nadoligaidd, Raffl gyda hamper fel gwobr ar gyfer Nadolig, Taith gerdded nodedig o gwmpas yr ardal, Ras rhedeg nodedig yn y Parc, raffl Pasg a llawer mwy. Mae'r plant wrth eu boddau yn cymryd rhan yn y gweithgareddau yma. Yn anffodus yn ystod Hydref 2024 torrodd rhywun i fewn i'r Neuadd a dwyn ychydig o arian parod oedd yn y Neuadd. Sefydlodd y rhieni tudalen Just Giving i godi arian i brynu camerau diogelwch i'w gosod uwchben bob drws ac fe godwyd dros £2000 mewn ychydig o fisoedd.

Rydym hefyd yn cymryd rhan yng nghweithgareddau codi arian Mudiad Meithrin yn Genedlaethol yn flynyddol. Eleni cynhaliwyd Parti Piws Dewin a Doti law yn llaw a the prynawn. Mae'n deimlad braf i gymryd rhan mewn digwyddiad gan wybod bod cannoedd o blant eraill yn gwneud yr un peth ar yr un pryd.

CYRRHAEDDIADAU PERFFORMIAD

AROLWG ESTYN

Ym mis Mawrth 2022 cafodd Ysgol Feithrin Pontypwl ei arolygu gan ESTYN/AGC. Mae'r Pwyllgor, staff, a theuluoedd yn hynod o falch o'r adroddiad. Dyma ychydig o ddyfyniadau o'r arlowg a'r astudiaeth achos

“Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau gyda'r plant yn hynod effeithiol, ac mae perthynas hyfryd yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae gan yr ymarferwyr brofiad ardderchog o gefnogi plant i wneud ffrindiau, rheoli eu teimladau, ac ymdopi â sefyllfaoedd anodd.

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR

01 EBRILL 2024 – 31 DECEMBER 2025

“Mae'r ymarferwyr yn defnyddio dull blaengar a hynod effeithiol o gynllunio sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddiddordebau plant a'r hyn sy'n bwysig i rieni. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth eithriadol o dda o ddatblygiad plant. O ganlyniad, maent yn darparu profiadau ysgogol a phwrpasol, sy'n ddatblygiadol addas ac ystyrlon i blant. Mae gan ymarferwyr ffordd naturiol a thrawiadol o adael i blant arwain eu dysgu drwy gydol y dydd.”

“Mae diddordebau plant yn greiddiol i sut mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio a darparu cyfleoedd rhagorol i blant ddatblygu eu holl fedrau mewn cyd-destunau hynod apelgar.....Mae ymarferwyr yn arddangos gwerthfawrogiad a pharch rhagorol tuag at farciau cynnar pob plentyn.”

“Mae ansawdd yr amgylchedd o safon ragorol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ac ymestynnol iawn i blant. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar a diddorol ac yn dathlu creadigrwydd y plant drwy arddangos eu gwaith yn gelfydd.”

Am fwy o fanylion gweler (<http://careinspectorate.wales>) (www.estyn.llyw.cymru)

Caiff Ysgol Feithrin Pontypwl arolwg ECERS yn flynyddol. Cafwyd yr arolwg diwethaf ar 25 Ebrill 2024 gyda sgor o 4.3. Erbyn hyn hefyd oherwydd ein bod wedi cofrestru i dderbyn 3 o blant Dechrau'n Deg mae Staff Torfaen hefyd yn ymweld i gwblhau adroddiad ITERS.

CRYNHOI A SEFYLLFA PRESENNOL

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024-2025 mae niferoedd plant Ysgol Feithrin Pontypwl ychydig yn is OND rydym o ganlyniad wedi lleihau costau cyflogi staff ac yn ofalus gyda gwariant ar offer ac adnoddau. Rydym yn gweithio yn galed ar gynllun marchnata ac wedi cofrestru i dderbyn 3 o blant o dan y cynllun Dechrau'n Deg ar ddechrau 2025. Mae'r staff yn parhau i gynnig profiadau o safon uchel i'r plant yn eu gofal ac mae'r cefnogaeth rydym yn derbyn gan teuluoedd y plant yn arbennig iawn. YN ystod 2025-2026 byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o gyflogi Aelod o staff ychwanegol sydd wedi hyfforddi hyd at Lefel 5 er mwyn i ni gynyddu'r niferoedd o blant Dechrau'n De gyn ein gofal ac o ganlyniad cynyddu'r niferoedd dyddiol. Nodwn hefyd bod yr Arweinydd presennol yn troi'n 70 oed yn ystod 2026, ac er yn hapus i barhai i weithio ar hyn o bryd mae'n bwysig ein bod yn dechrau trafodaeth ynglyn a'r hyn fydd yn digwydd pan fydd Helen yn penderfynu ymddeol

Arwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr a'r elusen- Ysgol Feithrin Pontypwl.

Helen Greenwood, Arweinydd, YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

YMDDIRIEDOLWYR

Sarah Jones



Martyn Redwood

Ena Morris



Ionawr 2026



YSGOL FEITHRIN PONTYPWL
ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR
01 EBRILL 2024 – 31 DECEMBER 2025

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL CYFRIFON 01/04/24- 30/03/25 ACCOUNTS

Incwm / Income

Grant Arian Plant 3oed / 3yr old Education funding grant	£	34,958.50
Ffioedd Plant / Children's fees	£	4,735.00
Rhent / Rent for use of Lower Hall	£	940.00
Hyfforddiant / Training	£	-
Flying Start Payments	£	2,925.00
Codi Arian / Fundraising + £1 club	£	4,095.25
Grantiau	£	8,693.73
Interest	£	822.55
Misc. / donations	£	560.84

Cyfanswm Incwm / Income Total

£ 57,730.87

Gwariant / Expenditure

Cyflogau / Salaries	£	38,192.42
Rhent / Rent	£	14,790.66
PAYE	£	3,882.44
Phone	£	844.66
Utilities	£	6,317.70
Training / DBS checkes	£	2,223.50
equipment	£	4,027.13
Building	£	3,820.27
Food	£	1,430.31
Mudiad Membership / Bus for trip	£	675.00
Photocopier	£	1,775.87
Other	£	422.50

Cyfanswm Gwariant / Expenditure Total

£ 78,402.46

Opening Balances

Current Account	£	21,713.61
other Lloyds account	£	74.73
other Lloyds account 2	£	100.01
Monmouthshire Account	£	36,951.72
	£	<u>58,840.07</u>

Add Income

£ 57,730.87


Less Expenditure

£ 116,570.94
£ 78,402.46

£ 38,168.48

Closing Balance

Current Account	£	10,217.69
other Lloyds account	£	75.49
other Lloyds account 2	£	101.03
Monmouthshire Account	£	27,774.27
	£	<u>38,168.48</u>



Ysgol Feithrin Pontypwl

Neuadd Iago Sant / St James' Hall
Heol Hanbury
Pontypwl
Torfaen
NP4 6JT

Neuadd/Hall (01495 755616)

Ffacs/Fax: (01495 306867)

E bost/e mail: hgglynebwyt@gmail.com



DATGANIAD ARCHWILIWR / AUDITOR'S STATEMENT 2024 - 2025

Rydym wedi adolygu/ archwilio y derbyniadau a thaliadau ynghyd a'r adroddiad ariannol ar gyfer 2024-2025 a thystiwn eu bod yn unol a'r llyfrau a'r talebion.

We have examined /audited the receipts and payments for 2024-2025 together with the financial statement and testify that they are in accordance with the relevant books and receipts

Llofnod / Signature 1

Annibynnol / Independent

Dyddiad

22/01/2026

Llofnod / Signature 2

Cadeirydd / Chairperson

Dyddiad

21/01/26

Llofnod / Signature 3

Ymddiriedolwr/ Trustee

Dyddiad

20/1/2026.

Llofnod / Signature 4

Arweinydd / Leader

Dyddiad

21-01-2026



Estyn



Arolyglaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales



YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

England & Wales - Charity number 1195317

Accounts

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR

01 EBRILL 2023 – 31 MAWRTH 2025

ENW'R DARPARWR: YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

CYFEIRIAD Y DARPARWR: Neuadd Iago Sant / St James' Hall, Heol Hanbury,
Pontypwl, Torfaen, NP4 6JT.
FFON: Neuadd/Hall (01495 755616)
E bost/e mail: hgglynebwy@gmail.com.

RHIF ELUSENNOL 1195317

PERSON A GOFAL HELEN GREENWOOD

MANYLION CYSWLLT hgglynebwy@gmail.com
Rhif ffon symudol yr Arweinydd 07377544285
Rhif ffon adref yr Arweinydd 01495 350155

STRWYTHYR LLYWODRAETHIANT A RHEOLI

UNIGOLION CYFRIFOL HELEN GREENWOOD

ENDID CYFREITHIOL Mae Ysgol Feithrin Pontypwl wedi ei chofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE / CIO)

PWYLLGOR RHEOLI: Caiff Ysgol Feithrin Pontypwl ei rheoli gan Pwyllgor gwirfoddol sydd yn cwrdd unwaith bob tymor. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Yr Arweinydd, Swyddogion, Ymddiriedolwyr, Swyddog Cefnogi Mudiad Meithrin a cynrychiolydd o'r Cylch Ti a Fi.

SWYDDOGION Y PWYLLGOR

Cadeirydd	Sarah Jones
Ysgrifennydd	Ceri Gillett.
Trysorydd	Martyn Redwood.

YMDDIRIEDOLWYR Ena Morris
Sarah Jones
Martyn Redwood

Mae gan Ysgol Feithrin Pontypwl Cyfansoddiad caiff ei adolygu yn flynyddol gan y Pwyllgor. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol o'r Pwyllgor i ethol / ail ethol Swyddogion, Ymddiriedolwyr ac adolygu Polisiau a gweithdrefnau.

Mae gennym bolisi Staffio manwl sydd yn gosod allan strwythur o ran hysbysebu am a phenodi staff. Mae pob Aelod o staff yn mynychu ystod eang o gyrsiau hyfforddiant yn gyson yn cynnwys Diogelwch Plant, cymorth cyntaf, a llawer mwy. Darperir restr o'r cyrsiau hyn ar gyfer swyddogion ac ymddiriedolwyr.

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR

01 EBRILL 2023 – 31 MAWRTH 2025

AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn Meithrinfa Cyfrwng Gymraeg cafodd ei sefydlu ynghanol Pontypwl yn Neuadd Uchaf Iago Sant 40 mlynedd yn ol. Erbyn hyn rydym wedi ein cofrestru gyda AGC fel Meithrinfa gofal dydd ar gyfer 19 o blant rhwng dwy a hanner a phump oed. Ym mis RHagfyr 2024 cofrestrwyd y sefydliad i dderbyn ifyny at 3 o blant 2 oed fel rhan o'r cynllun Dechrau'n De gyn Nhorfaen.

Rydym yn Cynnig addysg cyfrwng Cymraeg o safon uchel mewn awyrgylch cyfeillgar a chymunedol ac ar yr un pryd Sicrhau cyfle cyfartal i bob plenty/rhiant/gofalwr beth bynnag eu hil, iaith, rhyw, crefydd neu gallu corfforol . Caiff y plant cyfleuoedd chwarae amrywiol sydd yn sylfaenol i ddatblygiad plentyn yn gorfforol, yn emosiynol yn ieithyddol, yn gymdeithasol, ac yn ddeallusol. Mae staff yn sicrhau bod hawliau plant yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant a Deddf Plant 2004 yn rhan o ethos y grwpyn ogystal a sicrhau bod plant, waeth beth fo'u hangen, yn elwa o brofiadau blynyddoedd cynnar o ansawdd dda gan eu hannog i ddatblygu'n unigolion hyderus, annibynnol a chreadigol. Rydym yn cydweithio yn agos gyda rhieni a gofalwyr i sicrhau polisi drws agored i bawb sydd a diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

NIFEROEDD

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn dilyn rheolau AGC o ran niferoedd staff a phlant.

Rydym wedi ein cyfrestru i dderbyn dim mwy na 19 o blant ymhob sesiwn,

Oedran y plant – rhwng dwy a phump oed

Rydym yn sicrhau 1 oedolyn i bob 8 o blant dros dair oed.

Rydym yn sicrhau 1 oedolyn i bob 4 o blant dwy i dair oed

EIN GWASANAETH

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl wedi bod yn cynnig addysg cyn ysgol o safon ynghanol Pontypwl ers dros 40 mlynedd. Ein nod yw sicrhau ein bod yn cynnig cyfleuoedd chwarae a dysgu cyffroes i'r plant yn ein gofal gan ddilyn Cwriciwlwm Llywodraeth Cymru ar gyfer LLeoliadau a ariennir nas gynhelir. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau amrywiol addas ar gyfer ystod oedran y plant, eu galluoedd a'u gofynion gwahanol . Rydym yn paratoi cynlluniau tymor hir , tymor byr a chyfleuoedd chwarae dyddiol gan sicrhau bod llais y plant yn rhan bwysig o'r paratoi yma ac erbyn hyn rydym hefyd yn rhoi pwyslais mawr ar cynllunio fesul tymor gan edrych ar y 4 pwrpas a'r 5 Llwybr Dysgu.

Fel Meithrinfa Cymunedol rhoddir pwysigrwydd mawr ar gynnwys y rhieni a'r teulu estynedig ymhopeth rydym yn ei wneud gan fagu perthynas clos gyda phob un a'u hannog i ymuno a ni ar amrywiol weithgareddau a theithiau gyda'r plant. Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn hunan werthuso'r gwasanaeth yn gyson gan ofyn barn y plant, y rhieni a'r staff er mwyn gwella ein darpariaeth yn gyson. Mae gennym ystod eang o bolisiau manwl sydd yn sicrhau fod y plant yn ddiogel bob amser. Rydym yn anelu at sicrhau bod y plant yn deall pwysigrwydd bwyta a chadw'n iach a gofalu am ein cymuned.

Rydym yn falch iawn o allu cynnig polisi drws agored i bob plentyn sydd a diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac rydym yn credu yn gryf fod angen i ni arfer cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhopeth rydym yn ei wneud. Mae gennym berthynas agos ac asianteithau lleol sydd yn golygu ein bod yn gallu sicrhau cymorth a chefnogaeth gyda phroblemau iaith a lleferydd, clyw, golwg ac unrhyw anghenion yhwaneog eraill. Gwneir hyn mewn cydweithrediad llwyr a'r rhieni a'n nod yw darparu gofal a chefnogaeth llwyr i bawb.

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR

01 EBRILL 2023 – 31 MAWRTH 2025

CANMOL A CHWYNO

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn croesawu barn rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir, fel y gellir ei wella os oes angen. Hysbysir rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ynglŷn â'r polisi a threfn canmol a chwyno cyn i'w plentyn gychwyn yn y lleoliad. Darperir hyfforddiant i'r holl staff ar weithrediad y Polisi Canmol a Chwyno a'r Cod Ymarfer.

ADOLYGIAD ARIANNOL

SESIYNNAU

Rydym yn cynnig 7 sesiwn yr wythnos sef diwrnod llawn ar ddydd Llun, Mercher a Dydd Gwener a sesiwn hanner diwrnod ar Ddydd Mawrth, a Iau.

CLYBIAU

CLWB BRECWAST

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn falch o allu cynnig Clwb Brecwast rhwng 8.30am – 9.30am ar gyfer ein plant ni yn unig. Rydym yn cynnig ystod eang o fwydydd iach a chyfle i'r plant cymdeithasu gyda'u gilydd a sgwrsio yn hamddenol dros frechwast.

CLWB CINIO

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl hefyd yn cynnig Clwb Cinio ar Ddydd Llun a Dydd Mercher ar gyfer y plant sydd yn aros trwy'r dydd. Mae'r plant yn dod a pheycyn bwyd eu hunain ac mae'r staff yn eistedd gyda'r plant i fwyta eu cinio.

TALIADAU

CLWB BRECWAST	£3.00
SESIWN BORE	£11.00
CLWB CINIO	£2.00
SESIWN PRYNHAWN	£11.00
TAL DIWRNOD LLAWN	£27.00
PLANT A ARIENIR GAN Y CYNGOR	£16.00

Mae'r plant 3-4 oed yn derbyn 10 awr o arian addysg gan Cyngor Torfaen. Telir ni am 76 diwrnod a hynny ar £10 y diwrnod (sef £5 yr awr) felly ar gyfer Tymor yr Hydref 2023 roedd hyn yn gyfateb i £760 am y tymor

Mae'r rhieni sydd yn gweithio mwy na 16 awr yr wythnos hefyd yn gallu hawlio ifyny at 20 awr ychwnegol trwy Cynllun Gofal Plant Cymru 30 awr. Yn ystod 2023-2024 roedd 10 o deuluoedd yn cymryd mantais o'r cynllun ac fe nodir y swm a dderbyniom ar gyfer tal plant ar ein cyfrfion am yr un cyfnod.

Disgwylir i deuluoedd sydd yn talu ffioedd dalu'r ffioedd ymlaen llaw am hanner tymor, yn fisol neu'n wythnosol. Rhaid talu am bob sesiwn hyd yn oed os yw'r plentyn ar wyliau neu'n absennol.

Mae gan Ysgol Feithrin Pontypwl cyfrif gyda'r Monmouthshire Building Society lle cedwir arian wrth gefn rhag ofn ein bod yn darganfod ein hunain yn brin o arian.

Ar hyn o bryd mae'r arian ddaw mewn trwy'r Cynllun 10 awr addysg y Cyngor, y Cynllun 30 awr, gweithgareddau codi arian a grantiau amrywiol yn talu 85%-90% o gostau cyflogau'r staff, rhent yr adeilad, costau trydan, nwy, ffon, bwyd a diod, gweinyddol ac ati. Gan ein bod yn ceisio cadw arian wrth gefn yn y cyfrif cyfredol hefyd ni fu'n rhaid trosglwyddo unrhyw arian o'r cyfrif Cymdeithas adeiladu yn ystod 2023-2024

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR

01 EBRILL 2023 – 31 MAWRTH 2025

CODI ARIAN

Mae codi arian yn rhan bwysig o weithgareddau cymunedol ein lleoliad. Yn dilyn cyfnod o beidio bod mewn sefyllfa i drefnu gweithgareddau codi arian (oherwydd cyfyngiadau COVID) roedd yn braf gallu ail ddechrau cynllunio digwyddiadau mewn cydweithrediad a'n teuluoedd. Yn ystod 2023 - 2024 cynhaliwyd Ffair Haf, Te Prynawn, Disgo Calan Gaeaf, Disgo Nadolig, Raffl gyda hamper fel gwobr ar gyfer Nadolig, Taith gerdded nodedig o gwmpas yr ardal, Ras rhedeg nodedig yn y Parc, raffl Pasg a llawer mwy. Mae'r plant wrth eu boddau yn cymryd rhan yn y gweithgareddau yma.

Rydym hefyd yn cymryd rhan yng nghweithgareddau codi arian Mudiad Meithrin yn Genedlaethol yn flynyddol. Eleni cynhaliwyd Parti Piws Dewin a Doti law yn llaw a the prynawn. Mae'n deimlad braf i gymryd rhan mewn digwyddiad gan wybod bod cannoedd o blant eraill yn gwneud yr un peth ar yr un pryd.

CYRRHAEDDIADAU PERFFORMIAD

AROLWG ESTYN

Ym mis Mawrth 2022 cafodd Ysgol Feithrin Pontypwl ei arolygu gan ESTYN/AGC. Mae'r Pwyllgor, staff, a theuluoedd yn hynod o falch o'r adroddiad. Dyma ychydig o ddyfyniadau o'r arlowg a'r astudiaeth achos

“Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau gyda'r plant yn hynod effeithiol, ac mae perthynas hyfryd yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae gan yr ymarferwyr brofiad ardderchog o gefnogi plant i wneud frindiau, rheoli eu teimladau, ac ymdopi â sefyllfaoedd anodd.”

“Mae'r ymarferwyr yn defnyddio dull blaengar a hynod effeithiol o gynllunio sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddiddordebau plant a'r hyn sy'n bwysig i rieni. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth eithriadol o dda o ddatblygiad plant. O ganlyniad, maent yn darparu profiadau ysgogol a phwrpasol, sy'n ddatblygiadol addas ac ystyrlon i blant. Mae gan ymarferwyr ffordd naturiol a thrawiadol o adael i blant arwain eu dysgu drwy gydol y dydd.”

“Mae diddordebau plant yn greiddiol i sut mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio a darparu cyfleoedd rhagorol i blant ddatblygu eu holl fedrau mewn cyd-destunau hynod apelgar.....Mae ymarferwyr yn arddangos gwerthfawrogiad a pharch rhagorol tuag at farciau cynnar pob plentyn.”

“Mae ansawdd yr amgylchedd o safon ragorol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ac ymestynnol iawn i blant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar a diddorol ac yn dathlu creadigrwyd y plant drwy arddangos eu gwaith yn gelfydd.”

Am fwy o fanylion gweler (<http://careinspectorate.wales>) (www.estyn.llyw.cymru)

Caiff Ysgol Feithrin Pontypwl arolwg ECERS yn flynyddol. Cafwyd yr arolwg diwethaf ar 25 Ebrill 2024 gyda sgor o 4.3

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR

01 EBRILL 2023 – 31 MAWRTH 2025

CRYNHOI

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023-2024 mae niferoedd plant Ysgol Feithrin Pontypwl ychydig yn is OND rydym o ganlyniad wedi lleihau costau cyflogi staff ac yn ofalus gyda gwariant ar offer ac adnoddau. Rydym yn gweithio yn galed ar gynllun marchnata ac yn y broses o gofrestru i dderbyn ychydig o blant o dan y cynllun Dechrau'n Deg ar ddechrau 2025. Mae'r staff yn parhau i gynnig profiadau o safon uchel i'r plant y neu gofal ac mae'r cefnogaeth rydym yn derbyn gan teuluoedd y plant yn arbennig iawn.

Arwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr a'r elusen- Ysgol Feithrin Pontypwl.

Helen Greenwood, Arweinydd, YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

YMDDIRIEDOLWYR

Sarah Jones

Martyn Redwood

Ena Morris

Ionawr 2025

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL
ADRODDIAD BLYNYDDOL YMDDIRIEDOLWYR
01 EBRILL 2023 – 31 MAWRTH 2025

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL
CYFRIFON 01/04/23- 30/03/24 ACCOUNTS

Incwm / Income

Grant Arian Plant 3oed / 3yr old Education funding grant	£	32,367.50
Ffioedd Plant / Children's fees	£	8,333.00
Rhent / Rent	£	1,835.00
Rhent Ti a Fi / Rent Ti a Fi	£	95.00
Hyfforddiant / Training	£	89.70
ClubClwb £1	£	103.00
Codi Arian / Fundraising	£	544.89
Grantiau	£	18,607.86
Interest	£	958.25
Misc. / donations	£	25.00

Cyfanswm Incwm / Income Total

£ 62,959.20

Gwariant / Expenditure

Cyflogau / Salaries	£	40,810.29
Rhent / Rent	£	14,000.00
PAYE	£	1,295.80
Phone	£	1,109.48
Utilities	£	4,955.32
Training / DBS checkes	£	25.00
equipment	£	2,425.86
Building	£	2,082.56
Food	£	1,875.23
Mudiad Membership / Bus for trip	£	540.00
Photocopier	£	1,588.38
Other	£	-

Cyfanswm Gwariant / Expenditure Total

£ 70,707.92

Opening Balances

Current Account	£	30,420.58
other Lloyds account	£	73.87
other Lloyds account 2	£	98.87
Monmouthshire Account	£	35,995.47
	£	<u>66,588.79</u>

Add Income

£ 62,959.20

Less Expenditure


£ 129,547.99
 £ 70,707.92

Closing Balance

£ 58,840.07

Closing Balance

Current Account	£	21,713.61
other Lloyds account	£	74.73
other Lloyds account 2	£	100.01
Monmouthshire Account	£	36,951.72
	£	<u>58,840.07</u>



Ysgol Feithrin Pontypwl

Neuadd Iago Sant / St James' Hall
Heol Hanbury
Pontypwl
Torfaen
NP4 6JT

Neuadd/Hall (01495 755616)

Ffacs/Fax: (01495 306867)





E bost/e mail: hgglynebwy@gmail.com



DATGANIAD ARCHWILIWR / AUDITOR'S STATEMENT 2023 - 2024

Rydym wedi adolygu/ archwilio y derbyniadau a thaliadau ynghyd a'r adroddiad ariannol ar gyfer 2023-2024 a thystiwn eu bod yn unol a'r llyfrau a'r talebion.

We have examined /audited the receipts and payments for 2023-2024 together with the financial statement and testify that they are in accordance with the relevant books and receipts

Llofnod / Signature 1		Dyddiad	16/01/2025
	Annibynnol / Independent		
Llofnod / Signature 2		Dyddiad	16/01/2025
	Cadeirydd / Chairperson		
Llofnod / Signature 3		Dyddiad	16/01/2025
	Trysorydd / Treasurer		
Llofnod / Signature 4		Dyddiad	16/01/2025
	Arweinydd / Leader		



Estyn



YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

England & Wales - Charity number 1195317

Accounts

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD YMDDIRIEDOLWYR

ENW'R DARPARWR:	YSGOL FEITHRIN PONTYPWL	
CYFEIRIAD Y DARPARWR:	Neuadd Iago Sant / St James' Hall, Heol Hanbury, Pontypwl, Torfaen, NP4 6JT. FFON: Neuadd/Hall (01495 755616) E bost/e mail: hgglynebwy@gmail.com .	
RHIF ELUSENNOL	1195317	
PERSON A GOFAL	HELEN GREENWOOD	
MANYLION CYSWLLT	hgglynebwy@gmail.com Rhif ffon symudol yr Arweinydd Rhif ffon adref yr Arweinydd	07377544285 01495 350155
UNIGOLION CYFRIFOL	HELEN GREENWOOD	
ENDID CYFREITHIOL	Mae Ysgol Feithrin Pontypwl bellach wedi ei chofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE / CIO)	
PWYLLGOR RHEOLI:	Caiff Ysgol Feithrin Pontypwl ei rheoli gan Pwyllgor gwirfoddol sydd yn cwrdd unwaith bob tymor.	
SWYDDOGION Y PWYLLGOR	Cadeirydd Ysgrifennydd Trysorydd	Sarah Jones Ceri Gillett. Martyn Redwood.
YMDDIRIEDOLWYR	Ena Morris Sarah Jones Martyn Redwood	
Y GWASANAETH	Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn Meithrinfa Cyfrwng Gymraeg cafodd ei sefydlu ynghanol Pontypwl yn Neuadd Uchaf Iago Sant 40 mlynedd yn ol. Erbyn hyn rydym wedi ein cofrestru gyda AGC fel Meithrinfa gofal dydd ar gyfer 19 o blant rhwng dwy a hanner a phump oed.	

NOD AC EGWYDDORION

- Cynnig addysg cyfrwng Cymraeg o safon uchel mewn awyrgylch cyfeillgar a chymunedol
- Sicrhau cyfle cyfartal i bob plenty/rhiant/gofalwr beth bynnag eu hil, iaith, rhyw, crefydd neu gallu corfforol
- Cynnig cyfleuoedd chwarae amrywiol sydd yn sylfaenol i ddatblygiad plentyn yn gorfforol, yn emosiynol yn ieithyddol, yn gymdeithasol, ac yn ddeallusol.
- Sicrhau bod hawliau plant yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant a Deddf Plant 2004 yn rhan o ethos y grwp.
- Sicrhau bod plant, waeth beth fo'u hangen, yn elwa o brofiadau blynyddoedd cynnar o ansawdd dda gan eu hannog i ddatblygu'n unigolion hyderus, annibynnol a chreadigol.
- Cydweithio yn agos gyda rhieni a gofalwyr i sicrhau polisi drws agored i bawb sydd a diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD YMDDIRIEDOLWYR

NIFEROEDD

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn dilyn rheolau AGC o ran niferoedd staff a phlant.

Rydym wedi ein cyfrestru i dderbyn dim mwy na 19 o blant ymhob sesiwn,

Oedran y plant – rhwng dwy a hanner a phump oed

Rydym yn sicrhau 1 oedolyn i bob 8 o blant dros dair oed.

Rydym yn sicrhau 1 oedolyn i bob 4 o blant dwy a hanner i dair oed

EIN GWASANAETH

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl wedi bod yn cynnig addysg cyn ysgol o safon ynghanol Pontypwl ers dros 40 mlynedd. Ein nod yw sicrhau ein bod yn cynnig cyfleuoedd chwarae a dysgu cyffroes i'r plant yn ein gofal gan ddilyn Fframwaith y Cynllun Sylfaen. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau amrywiol addas ar gyfer ystod oedran y plant, eu galluoedd a'u gofynion gwahanol. Rydym yn paratoi cynlluniau tymor hir, tymor byr a chyfleuoedd chwarae dyddiol gan sicrhau bod llais y plant yn rhan bwysig o'r paratoi yma ac erbyn hyn rydym hefyd yn rhoi pwyslais mawr ar cynllunio fesul tymor gan edrych ar y 4 pwrpas o fewn Cwricwlwm Newydd Cymru. Fel Meithrinfa Cymunedol rhoddir pwysigrwydd mawr ar gynnwys y rhieni ymhopeth rydym yn ei wneud gan fagu perthynas clos gyda phob un a'u hannig i ymuno a ni ar amrywiol weithgareddau a theithiau gyda'r plant. Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn hunan werthuso'r gwasanaeth yn gyson gan ofyn barn y plant, y rhieni a'r staff er mwyn gwella ein darpariaeth yn gyson. Mae gennym ystod eang o bolisiau manwl sydd yn sicrhau fod y plant yn ddiogel bob amser. Rydym yn anelu at sicrhau bod y plant yn deal pwysigrwydd bwyta a chadw'n iach a gofalu am ein cymuned.

Rydym yn falch iawn o allu cynnig polisi drws agored i bob plentyn sydd a diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac rydym yn credu yn gryf fod angen i ni arfer cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhopeth rydym yn ei wneud. Mae gennym berthynas agos ac asianteithau lleol sydd yn golygu ein bod yn gallu sicrhau cymorth a chefnogaeth gyda phroblemau iaith a liferydd, clyw, golwg ac unrhyw anghenion yhwangol eraill. Gwneir hyn mewn cydweithrediad llwyr a'r rhieni a'n nod yw darparu gofal a chefnogaeth llwyr i bawb.

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn Aelod o Mudiad Meithrin ac yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg gan annog y rhieni i ddewis addysg cynradd cynfrwng Cymraeg i'w plant. Croesawir plant o gefndiroedd ieithyddol eraill ac mae'r staff bob amser yn barod i gefnogi plant sydd a iaith cyntaf wahanol i'r Saesneg/Cymraeg gan ddarparu adnoddau a llyfrau yn yr iaith honno os oes modd. Rhoddir cefnogaeth i rieni sydd yn awyddus i ddysgu ychydig o Gymraeg gyda'r plant. Trefnir dosbarthiadau dysgu Cymraeg addas yn y Neuadd Isaf ac rydym yn cydweithio yn agos gyda Choleg Gwent a Menter Iaith i drefnu gweithgareddau cymunedol cyson.

MANYLION STAFF

ARWEINYDD: Helen Greenwood. Cyflogwyd ym mis Medi 1991. Cwrs Dysgu 3 mlynedd i fod yn Athrawes yng Ngholeg y Drindod rhwng 1974-1977. Cwrs Blwyddyn Mudiad Meithrin a chwrs NVQ Lefel 3 gyda Choleg Gwent

DIRPRWY ARWEINYDD: Julie Watkins. Cyflogwyd yn 1997 NVQ Lefel 3

CYNORTHWYWYR:

Dawn Poole. Cyflogwyd yn 1990, Cwrs Blwyddyn Mudiad Meithrin a chwrs NVQ Lefel 3 Choleg Gwent

Abi Roberts – Cyflogwyd ym mis Ionawr 2022. NVQ Lefel 3.

STAFF WRTH GEFN – Hayley Tibbs, Nicola Lear a Jo Barber. y 3 gyda DBS cyfredol

Mae gan pob Aelod o staff cytundeb cyflogaeth. Mae Ysgol Feithrin yn dilyn patrwm gwyliau ysgol ac yn hyblyg os bydd Aelod o staff angen diwrnod neu sesiwn iffwrdd ar gyfer apwyntiad/hyfforddiant ac ati.

Mae ein polisi staffio yn nodi manylion ein telerau salwch.

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD YMDDIRIEDOLWYR

ORIAU AGOR

LLUN am CLWB BRECWAST 8.30am – 9.30am SESIWN BORE 9.30 – 12.00 CLWB CINIO 12.00 – 12.45PM	MAWRTH am CLWB BRECWAST 830am – 9.30am SESIWN BORE 9.30 – 12.00	MERCHER am CLWB BRECWAST 830am – 9.30am SESIWN BORE 9.30 – 12.00 CLWB CINIO 12.00 – 12.45PM	IAU am CLWB BRECWAST 830am – 9.30am SESIWN BORE 9.30 – 12.00	GWENER am CLWB BRECWAST 830am – 9.30am SESIWN BORE 9.30 – 12.00	PENWYTHNOS AR GAU
LLUN pm SESIWN PRYNHAWN 12.45PM – 3.15PM	MAWRTH pm DIM SESIWN AR Y FUNUD	MERCHER pm SESIWN PRYNHAWN 12.45PM – 3.15PM	IAU pm DIM SESIWN AR Y FUNUD	GWENER pm DIM SESIWN AR Y FUNUD	AR GAU

CYFLEUSTERAU'R YSGOL FEITHRIN ARDAL DAN DO

Lleolir Ysgol Feithrin Pontypwl mewn Neuadd fawr pwrpasol gyda digon o ofod i osod nifer o gorneli chwarae atyniadol a chyffroes allan ar gyfer y plant. Caiff yr ardaloedd yma eu newid a'u datblygu yn gyson mewn trafodaeth gyda'r plant.

Mae yna doiledau pwrpasol ar gyfer y plant ynghyd a thoiled gyda chyfleusterau anabl a gofod ar gyfer newid cewyn. Ar ben hynny mae yna cegin gyda oergell, rhewgell, peiriant gofod, cwpwrdd storio ar gyfer offer glanhau sydd ar glo yn ystod y dydd, cypyrddau storio, 2 sinc mawr a sinc bach ar gyfer golchi dwylo a byrddau a chadeiriau ar gyfer ein clwb brecwast.

ARDAL TU ALLAN

Mae gan Ysgol Feithrin Pontypwl gofod sylweddol tu allan sydd yn cynnwys lle gwyrdd aml lefel, a man gwastad gyda cysgodfan. Rydym wedi datblygu ardal cegin fwd, gardd i blanu ffrwythau, llysiau a blodau, cornel i'r cartref bwstfilod bach, offer dringo yn cynnwys llithren mawr a wal ddringo, beiciau ac offer chwaraeon amrywiol. Mae yna offer chwarae dwr a thywod, cornel adeiladu, ac ar ben hynny caiff offer amrywiol ei osod ifyny tu allan yn wythnosol. Mae Neuadd Iago Sant wedi ei leoli cyferbyn a Pharc godidog Pontypwl ac rydym yn ymweld a'r Parc yn wythnosol.

SESIYNNAU

Rydym yn cynnig 7 sesiwn yr wythnos sef diwrnod llawn ar ddydd Llun, Mercher a sesiwn hanner diwrnod ar Ddydd Mawrth, Iau a Dydd Gwener.

CLYBIAU

CLWB BRECWAST

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn falch o allu cynnig Clwb Brecwast rhwng 8.30am – 9.30am ar gyfer ein plant ni yn unig. Rydym yn cynnig ystod eang o fwydydd iach a chyfle i'r plant cymdeithasu gyda'u gilydd a sgwrsio yn hamddennol dros frecwast.

CLWB CINIO

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl hefyd yn cynnig Clwb Cinio ar Ddydd Llun a Dydd Mercher ar gyfer y plant sydd yn aros trwy'r dydd. Mae'r plant yn dod a phe cyn bwyd eu hunain ac mae'r staff yn eistedd gyda'r plant i fwyta eu cinio.

HYFFORDDIANT STAFF: Mae'r 4 aelod o staff llawn amser yn dilyn cyrsiau hyfforddi yn gyson trwy Mudiad Meithrin, Cyngor Torfaen a'r EAS. Caiff y staff llanw cyfle i fynychu cyrsiau hyfforddi hefyd. Mae

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD YMDDIRIEDOLWYR

rhestr o'r holl gyrsiau hyfforddi a ddilynywyd ar gael i bawb eu gweld yn y cyntedd yn y Neuadd. Mae gan bob aelod o staff Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol.

CWRICIWLLWM AR GYFER LLEOLIADAU MEITHRIN A ARIENNIR NAS CYNHELIR

Canolbwynt ein patrwm ddyddiol yn Ysgol Feithrin Pontypwl yw'r plant wrth gwrs. Nhw sydd yn rheoli'r adnoddau a'r gweithgareddau a gynigir yn ddyddiol tu fewn a thu allan. Rydym yn dilyn Y Cwriciwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ac yn cynllunio yn unol a'r 5 llwybr dysgu sydd yn cynnwys trafodaethau gyda'r plant. Rhoddir pwyslais mawr ar ddysgu trwy chwarae

ARSYLWI, ASESU A CHOFNODI – Mae staff Ysgol Feithrin Pontypwl yn arsylwi ac asesu datblygiad bob plentyn yn fanwl. Mae hyn yn ein cynorthwyo i gynllunio gweithgareddau pwrpasol a dilyn diddordebau'r plant Cedwir cofnodion manwl o ddatblygiad bob plentyn a darperir adroddiad ar ddiwedd pob tymori.

Mae ein patrwm ddyddiol yn newid ac yn datblygu yn gyson ond dyma syniad o'r hyn sydd yn digwydd mewn sesiwn:

GWEITHGAREDDAU DYDDIOL

8.30	Clwb Brecwast
9.30	Croesawu a Chofrestru Amser Rhydd i chwarae
9.45	Amser Cylch - Amser Stori / Amser cofrestr / Amser newyddion / trafod y tywydd
10.00am	Sesiwn gweithgareddau rhydd tu fewn a thu allan lle annogir y plant i symud o gwmpas yr ardal oedd amrywiol – blociau ac adeiladu, byd bach, adnoddau naturiol, creadigol a chwarae rol,
11.10am	amser tacluso
11.10	Amser diod a bwyd iach
11.30	DEWIS Amser canu /sesiwn drama neu dawn / sesiwn symud i gerddoriaeth/ gemau corfforol/ loga / Beciau / offer ymarfer corff/gemau pel/gemau parasiwt
11.55	Canu Hwyl Fawr Ffrindiau
12.00pm	Amser ffarwelio / Clwb Cinio
12.45pm	Dechrau sesiwn prynhawn
1.00pm	Amser Cylch – cyfleuoedd i holi ac ateb cwestiynau/ gemau iaith
1.15pm	Sesiwn gweithgareddau rhydd tu fewn a thu allan lle annogir y plant i symud o gwmpas yr ardal oedd amrywiol – blociau ac adeiladu, byd bach, tywod, dwr, adnoddau naturiol, creadigol a chwarae rol. Yn amlwg rydym yn cynnig profiadau gwahanol yn y prynhawn i'r plant sydd yn a trwy'r dydd . Rhoddir offer ac adnoddau gwahanol allan ar gyfer y sesiwn prynhawn
2.30pm	amser tacluso
2.40pm	Amser diod a bwyd iach
2.55 - 3.00pm	DEWIS Amser canu / gwaith drama / sesiwn symud i gerddoriaeth/ gemau corfforol/ beiciau/ offer ymarfer corff/gemau pel/gemau parasiwt yn wahanol i'r hyn a wneir yn y bore
3.10pm	Canu Hwyl Fawr Ffrindiau
3.15pm	Amser ffarwelio / Clwb Cinio

TALIADAU

CLWB BRECWAST	£3.00
SESIWN BORE	£11.00
CLWB CINIO	£2.00
SESIWN PRYNHAWN	£11.00
TAL DIWRNOD LLAWN	£27.00
PLANT A ARIENIR GAN Y CYNGOR	£16.00

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r plant 3-4 oed yn gymwys i 10 awr o oriau addysg gan Cyngor Torfaen ac rydym hefyd yn rhan o'r Cynllun 30 awr o ofal plant am ddim gan Llywodraeth Cymru. Golyga hyn fod rhan fwyaf o blant y Cylch yn derbyn Cymorth ariannol o rhyw fath.

Disgwylir i deuluoedd sydd yn talu ffioedd dalu'r ffioedd ymlaen llaw am hanner tymor, yn fisol neu'n wythnosol. Rhaid talu am bob sesiwn hyd yn oed os yw'r plentyn ar wyliau neu'n absennol.

Mae Staff yr Ysgol Feithrin yn trefnu rota Clwb Cinio i sicrhau fod pawb yn cael cyfle am doriad i gael cinio ond fel arfer mae'r staff yn bwyta cinio gyda'r plant yn y Neuadd

MANYLION MYNEDIAD

CYLCH TI A FI – Rydym yn annog unrhyw deuluoedd sydd a diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg i fynychu'r Cylch Ti a Fi. Mae'r Cylch Ti a Fi yn cwrdd bob Bore Iau yn Neuadd Isaf Iago Sant.

Oddi yno gwahoddir teuluoedd i ymweld ag Ysgol Feithrin Pontypwl i gwrdd a'r staff ac i ddod yn gyfarwydd a'r Neuadd Uchaf a'r cyfleusterau yn ogystal a derbyn pecyn o wybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg. Cyn cychwyn yn ddwy a hanner oed rhoddir pecyn cofrestru i bob teulu gan ofyn iddynt lenwi ffurflen gofrestru, cytundeb syml, ffurflen proffei a ffurflen caniatad o ran lluniau ac ati. Rhaid sicrhau bod manylion cyswllt manwl gyda ni. Disgwylir i rieni/gofalwyr roi gwybod i'r staff ar unwaith os oes unrhyw newidiadau i'r manylion cyswllt yma. Cedwir manylion pawb sydd yn gymwys i gollwng a chasglu pob plentyn. Rhoddir wybodaeth am ffioedd a'r cyfleuoedd ariannu sydd ar gael unwaith mae'r plentyn yn troi'n 3 oed.

Wrth gychwyn gyda ni rydym yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio gyda rhieni/gofalwyr i sicrhau fod y plant yn ymgyfarwyddo gyda'r lleoliad a theimlo'n hyderus yn nghwmni'r staff a'r plant eraill. Os bydd angen gall rhieni /gofalwyr aros am gyfnodau o amser i gynorthwyo'r proses yma.

Mae'r Cytundeb rhieni yn nodi 'r drefn a ddilynnir mewn achos o salwch, sut byddwn yn ymateb i achos o argyfwng, a beth yw ein polisi o ran rhoi meddiginiaeth, Mae'r cytundeb hefyd yn nodi'r drefn o ran canmol a chwyno, beth yw ein polisi gydag absenoldeb a rhestr o'n holl bolisiau.

CANMOL A CHWYNO

Mae Ysgol Feithrin Pontypowl yn croesawu barn rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir, fel y gellir ei wella os oes angen. Hysbysir rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ynglŷn â'r polisi a threfn canmol a chwyno cyn i'w plentyn gychwyn yn y lleoliad. Darperir hyfforddiant i'r holl staff ar weithrediad y Polisi Canmol a Chwyno a'r Cod Ymarfer.

Trefn Cwynion

- Cysylltu â'r Person â Gofal /**Unigolyn Cyfrifol sef Helen Greenwood, Arweinydd** i ddatgan y gwyn ar lafar. Ceisir datrys y mater a hysbysu'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid o'r camau a gymerwyd o fewn 3 diwrnod gwaith.
- Dylai'r **Unigolyn Cyfrifol / Person Cofrestredig** hysbysu'r sawl sydd yn gwneud y cwyn o unrhyw wasanaethau eirioli neu gefnogi sydd ar gael iddynt.
- Os yw'r cwyn yn ymwneud â phlentyn ble mae'r awdurdod lleol wedi trefnu'r gofal, dylai'r **Unigolyn Cyfrifol / Person Cofrestredig** hysbysu'r sawl sydd yn gwneud y cwyn fod ganddynt hawl i gwyno i'r awdurdod lleol.
- Gyda chytundeb y sawl sydd yn gwneud cwyn, gall yr **Unigolyn Cyfrifol / Person Cofrestredig** wneud trefniadau i geisio cymodi, cyfryngu neu gael cymorth er mwyn ceisio datrys y gwyn, gan gyfeirio at asiantaeth neu berson annibynnol pe bai angen. Gellir cysylltu a Chadeirydd y Pwyllgor

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD YMDDIRIEDOLWYR

Rhieni sef Sarah Jones 07814363121 neu Swyddog Cefnogi Mudiad Meithrin, Manon Jones Berry 07800540316

- Os na ellir datrys y mater yn dderbyniol, neu os mai dymuniad y rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid yw cyflwyno'r gwyn yn ysgrifenedig, dylid cyfeirio'r mater yn ffurfiol ac yn ysgrifenedig i'r **Unigolyn Cyfrifol / Person Cofrestredig/ Cadeirydd**. Cynhelir ymchwiliad llawn i'r mater ar unwaith, a rhoddir ymateb llawn i'r achwynwr yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod.
- Os nad yw'r ymchwiliad wedi ei gwblhau o fewn yr amser dynodedig, dylid cyflwyno adroddiad interim i'r person a gwynodd, ynghyd ag esboniad ynglŷn â pham fod angen amser ychwanegol.
- Dyllid cwblhau'r ymchwiliad a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod. Cedwir unrhyw ohebiaeth, nodiadau ac adroddiadau ar yr achos gan y Cylch Meithrin a byddant ar gael i AGC eu gweld.
- Os yw'r sawl sydd yn cwyno yn parhau i fod yn anfodlon gyda'r canlyniad gellir cyfeirio'r mater yn uniongyrchol at AGC ar y manylion isod:

AGC RHANBARTH DE-DDWYRAIN CYMRU, Sarn Mynach Cyffordd Llandudno LL31 9RZ .

agc@llyw.cymru

DELIO AG ARGYFYNGIADAU

Mae'n bolisi gan Ysgol Feithrin Pontypwl i amddiffyn pob person, gan gynnwys cyflogai, cwsmeriaid, contractwyr ac aelodau'r cyhoedd, rhag anafiad posib a niwed i'w hiechyd o ganlyniad i dân, damwain neu argyfwng meddygol. Rydym yn darparu ac yn cynnal amodau gwaith, offer a systemau gwaith diogel ar gyfer pob cyflogai, ac yn darparu'r wybodaeth, hyfforddiant a goruchwyliaeth sydd ei angen at y diben hwn. Byddwn yn ymrwmo i lefel uchel o ddiogelwch tân, ac yn cydymffurfio â'r holl anghenion statudol. Mae gennym systemau manwl mewn lle i ddelio ag argyfwng meddygol neu damwain difrifol.

CYDWEITHIO AC ASIANTEITHIAU ERAILL

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn cydweithio yn agos gydag asiantaethiau eraill yn y Gymuned. Cawn ymweliadau cyson gan Athrawes Ymgynghorol Y Cyfnod Sylfaen gyda'r EAS a Swyddog Cefnogi a Gweinyddiaeth Mudiad Meithrin. Mae gennym gyswilt hefyd gyda'r seicolegydd plant a'r adran therapi lleferydd yn Nhorfaen. Rydym yn cydweithio a'r ysgolion cynradd Cymraeg yn y bwrdeisdref gan cydweithio a'r staff wrth i blant drosglwyddo i'r dosbarth derbyn.

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn roi pwys mawr ar fod yn rhan o'r gymuned leol. Rydym yn gwneud defnydd helaeth o'r parc arbennig cyferbyn a'n cartref yn ogystal a'r canolfan hamdden lleol. Mae'r plant yn ymweld a'r llyfrgell a'r farchnad lleol yn gyson ac rydym yn ymweld a'r Ganolfan Ddinesig sydd hefyd drws nesa i'r Neuadd. Ceir ymwelwyr o'r gymuned e.e. heddwes cymunedol yn dod i siarad a nhw am ei gwaith, swyddog ail gylchu'r cyngor yn dod i siarad am bwysigrwydd ail gylchu, unigolion sydd a thalentau cerddorol yn dod i wneud sesiwn dawns, canu, offer cerddorol gyda'r plant.

DYSGU CYMRAEG

Er mwyn cefnogi teuluoedd y Cylch rydym yn rhannu gwybodaeth cyson a nhw am gyfleuoedd i ddysgu Cymraeg. Rydym yn rhedeg dosbarthiadau yn flynyddol ar wahanol lefelau yn y Neuadd Isaf ac yn ystod y flwyddyn fe gynnigir sesiynau blasu , sesiynau Cymraeg i'r Teulu a Chymraeg o'r Crud. Rydym hefyd yn annog y rhieni /gofalwyr i gyflwyno rhaglenni **S4C** i'r plant ac rydym yn rhannu taflenni gwybodaeth cyson am raglenni **CYW**. Caiff y plant cyfleuoedd i ymweld a'r theatr i weld sioe cyfrwng Cymraeg yn flynyddol hefyd

AROLWG ESTYN

Ym mis Mawrth 2022 cafodd Ysgol Feithrin Pontypwl ei arolygu gan ESTYN/AGC. Mae'r Pwyllgor , staff,

YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

ADRODDIAD YMDDIRIEDOLWYR

a theuluoedd yn hynod o falch o'r adroddiad. Dyma ychydig o ddyfyniadau o'r arlowg a'r astudiaeth achos

"Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau gyda'r plant yn hynod effeithiol, ac mae perthynas hyfryd yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae gan yr ymarferwyr brofiad ardderchog o gefnogi plant i wneud ffrindiau, rheoli eu teimladau, ac ymdopi â sefyllfaoedd anodd."

"Mae'r ymarferwyr yn defnyddio dull blaengar a hynod effeithiol o gynllunio sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddiddordebau plant a'r hyn sy'n bwysig i rieni. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth eithriadol o dda o ddatblygiad plant. O ganlyniad, maent yn darparu profiadau ysgogol a phwrpasol, sy'n ddatblygiadol addas ac ystyrlon i blant. Mae gan ymarferwyr ffordd naturiol a thrawiadol o adael i blant arwain eu dysgu drwy gydol y dydd."

"Mae diddordebau plant yn greiddiol i sut mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio a darparu cyfleoedd rhagorol i blant ddatblygu eu holl fedrau mewn cyd-destunau hynod apelgar.....Mae ymarferwyr yn arddangos gwerthfawrogiad a pharch rhagorol tuag at farciau cynnar pob plentyn."

